# SL(5)613 – Hysbysiad Addasu Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020

## Cefndir a Diben

Mae paragraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn cynnwys rhestr o ddeddfiadau addysg y caiff Gweinidogion Cymru eu haddasu. Mae paragraff 7(6) hefyd yn nodi rhychwant yr addasiadau y gellir eu gwneud.

Caiff Gweinidogion Cymru weithredu'r addasiadau a nodir ym mharagraff 7(6) trwy ddyroddi hysbysiad. Rhaid i hysbysiad nodi pam y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod dyroddi hysbysiad yn gam priodol a chymesur i ymdrin â phandemig y coronafeirws.

Ni chaiff hysbysiad o dan baragraff 7(6) gael effaith am fwy nag un mis – mae'r Hysbysiad hwn yn para am un mis, gan ddechrau ar 1 Medi 2020.

Dyma enghreifftiau o'r addasiadau a weithredwyd gan yr Hysbysiad hwn, sydd yn addasiadau i Ddeddfau sydd ar gael yn Saesneg yn unig:

| **Deddf** | **Deddfiad** | **Addasiad** |
|---|---|---|
| Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 | Adran 69 (**dyletswydd i sicrhau darpariaeth ddyladwy addysg grefyddol**) | Mae unrhyw ddyletswydd a osodir ar awdurdod lleol, corff llywodraethu neu bennaeth o dan adran 69(1) i'w thrin fel pe bai wedi'i chyflawni os ydynt wedi cymryd camau rhesymol i gyflawni'r ddyletswydd. |
| Deddf Addysg 1997 | Adran 43 (**darparu addysg gyrfaoedd mewn ysgolion**). | Mae unrhyw ddyletswydd a osodir ar awdurdod lleol, corff llywodraethu neu bennaeth o dan adran 43(3) i'w thrin fel pe bai wedi'i chyflawni os ydynt wedi cymryd camau rhesymol i gyflawni'r ddyletswydd. |
| Deddf Addysg 2002 | Adran 101 (**cwricwlwm sylfaenol ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru**) | Mae unrhyw ddyletswydd a osodir ar berson yn rhinwedd adran 101 wedi'i chyflawni os yw'r person i'w thrin fel pe bai wedi cymryd camau rhesymol i gyflawni'r ddyletswydd. |
| Deddf Addysg 2002 | Adran 108 a Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod | Mae unrhyw ddyletswydd a osodir ar benaethiaid gan y ddau orchymyn hyn a wnaed o dan |

| | | |
|---|---|---|
| | Allweddol 2) (Cymru) 2004 a Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005 a wnaed o dan adran 108 (**trefniadau i ddisgyblion gael eu hasesu**) | adran 108 i'w thrin fel pe bai wedi'i chyflawni os ydynt wedi cymryd camau rhesymol i gyflawni'r ddyletswydd. |

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwn:

1. arwyddocâd yr Hysbysiad hwn;

2. y mathau o ddyletswyddau statudol sy'n cael eu haddasu gan yr Hysbysiad hwn o ganlyniad i bandemig y coronafeirws;

3. y rhesymau a roddwyd gan y Gweinidog Addysg ym mharagraff 3 o'r Hysbysiad dros ddyroddi'r Hysbysiad, gan gynnwys y casgliad ym mharagraff 3(4):

> *"... byddai cymhwyso'r dyletswyddau a ddisgrifir ym mharagraff 1, ar eu ffurf heb ei haddasu, yn gosod gofynion afrealistig ar ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir a darparwyr eraill addysg feithrin a gyllidir; byddai'n niweidio eu gallu i ymateb yn hyblyg ac yn effeithiol i'r heriau sy'n codi o ganlyniad i'r coronafeirws a'i effeithiau; a byddai'n debygol o gael effaith andwyol ar blant."*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**16 Medi 2020**